# Monitor Annibynnol

## Adroddiad Blynyddol 2022

Independent Monitor

# Cyflwyniad



Dyma ddegfed Adroddiad Blynyddol y Monitor Annibynnol (IM) ar gyfer y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (DBS). Mae'r adroddiad yn ymdrin â'r cyfnod rhwng Ionawr a Rhagfyr 2022.

**Nid wyf yn gwneud unrhyw argymhellion newydd yn yr Adroddiad Blynyddol 2022 hwn ac rwy'n rhoi diweddariad ar yr holl argymhellion blaenorol. Ysgrifennydd y Gweinidog Diogelu ataf ar 2il Rhagfyr 2022 gyda'i hymateb i Adroddiad Blynyddol 2021 yr IM a chyhoeddwyd llythyr y Gweinidog gydag Adroddiad Blynyddol y llynedd.**

## Trosolwg o'r flwyddyn

Mae 2022 wedi bod yn flwyddyn anrhagweladwy a heriol arall i'r drefn ddatgelu. Mae'r DBS yn adrodd bod nifer y ceisiadau ar gyfer gwiriadau cofnod troseddol manylach a atgyfeiriwyd at yr heddlu wedi cynyddu bron 11% eleni. Yn yr un modd, mae adroddiad AccessNi yn datgan mai 2022 oedd eu 'blwyddyn brysuraf erioed', gan gynnwys cynnydd o 10% yn y galw am wiriadau manylach. Mae'n ymddangos bod ffactorau lluosog, gan gynnwys newidiadau i batrymau recriwtio ledled y DU, a mentrau newydd fel y cynllun "Cartrefi i Wcráin" (a lansiwyd ym mis Mawrth 2022), wedi cyfrannu at y cynnydd digynsail hwn i lwythi gwaith unedau datgelu yn y 12 mis diwethaf. Fy arsylwad yw bod y DBS, gwasanaethau'r heddlu a'r drefn ddatgelu gyfan wedi ymateb yn gadarnhaol i'r pwysau gweithredol digynsail hyn, gan arddangos gwytnwch a hyblygrwydd mewn amgylchedd gwaith newidiol.

### Adolygiad y Gyfundrefn Datgelu a Gwahardd

Ym mis Gorffennaf 2021, cyhoeddodd Llywodraeth EF y byddai'r Swyddfa Gartref yn "comisiynu adolygiad o'r gyfundrefn datgelu a gwahardd yng Nghymru a Lloegr i roi sicrwydd ar ei heffeithiolrwydd o ran diogelu'r rhai sy'n agored i niwed". Ym mis Chwefror 2022, penodwyd Mr Simon Bailey, i arwain yr Adolygiad. Cyhoeddwyd adroddiad yr Adolygiad ar 18fed Ebrill 2023[1].

### Atgyfeiriadau IM

Yn 2022, gwnaed cyfanswm o 5,073 o ddatgeliadau "gwybodaeth ychwanegol" ar Dystysgrifau Cofnodion Troseddol Manylach gan y DBS a Mynediad Gogledd Iwerddon (ANI) gyda'i gilydd. Gwnaed cyfanswm o 129 o atgyfeiriadau datgelu dadleuol yn 2022 i swyddfa'r Monitor Annibynnol. Mae hyn yn golygu bod 2.54% o'r holl ddatgeliadau a wnaed o fewn y flwyddyn yng Nghymru, Lloegr a Gogledd Iwerddon wedi bod yn destun anghydfod ac wedi'u hatgyfeirio ataf i'w hadolygu. Fel cymhariaeth, yn 20201 roedd cyfanswm o 117 achos o anghydfod (h.y., 2.71% o'r holl ddatgeliadau manylach ar draws tair gwlad Prydain) yn destun anghydfod ac fe'u hatgyfeiriwyd ataf i'w hadolygu.

### Gogledd Iwerddon

Estynnodd y Ddeddf Cyfiawnder (Gogledd Iwerddon) 2015 rôl y Monitor Annibynnol i gynnwys adolygiad o'r anghydfodau datgelu a gyflwynwyd yng Ngogledd Iwerddon. Yn 2022, ni chafodd unrhyw atgyfeiriadau eu hatgyfeirio at yr IM i'w hadolygu mewn cysylltiad â datgeliadau a wnaed gan Wasanaeth Heddlu Gogledd Iwerddon.

Fel rhan o rôl yr IM, rwyf wedi adolygu sampl o achosion eleni o Ogledd Iwerddon lle mae'r heddlu wedi penderfynu naill ai i ddatgelu, neu beidio â datgelu, gwybodaeth. Nodwyd rhai pwyntiau dysgu drwy'r ymarfer hwn, ond dim pryderon sylweddol. Mae adborth manwl o'r ymarfer samplo hwn wedi'i ddarparu i Wasanaeth Heddlu Gogledd Iwerddon i'w ystyried.

[1] Independent Review of the Disclosure and Barring Regime - GOV.UK (www.gov.uk)

### Samplo Achosion Datgelu

Yr wyf hefyd wedi cynnal ymarfer samplo ar hap ehangach, yn unol ag adran 199B Deddf yr Heddlu 1997, o benderfyniadau datgelu'r heddlu yn ystod 2022.

Cafodd cyfanswm o 50 o benderfyniadau datgelu eu samplo o bump gwahanol ardal yr heddlu yng Nghymru a Lloegr, yn ogystal â'r 11 o achosion sampl o Wasanaeth Heddlu Gogledd Iwerddon (fel y nodwyd uchod). Eleni, fe wnes i samplo achosion a oedd yn canolbwyntio ar iechyd meddwl a rolau Covid-19, yn ogystal â grŵp o achosion a ddewiswyd ar hap.

Ar ôl ystyried pob achos yn ofalus, nodwyd pwyntiau dysgu perthnasol drwy'r ymarfer hwn, ond dim pryderon arwyddocaol. Rwyf wedi darparu adborth unigol i bob heddlu unigol, iddynt ei ystyried. Rwyf hefyd wedi rhannu'r holl bwyntiau dysgu cyffredinol o'r ymarfer samplo hwn ar lefel genedlaethol drwy'r Fforwm Datgelu Cenedlaethol ac yn fwy lleol drwy'r Fforymau Datgelu Rhanbarthol. Er enghraifft, rwyf wedi gwneud rhai arsylwadau eleni ar ddatgelu gwybodaeth sy'n gysylltiedig â materion sy'n destun ymchwiliadau parhaus.

### Adolygiadau Barnwrol

Adolygiad Barnwrol yw'r hawl derfynol sydd ar gael i unrhyw un sy'n anghytuno â'r wybodaeth a ddatgelwyd gan yr heddlu ar eu Tystysgrif Cofnodion Troseddol Manylach.

Nid oedd unrhyw Adolygiadau Barnwrol yn ymwneud â'r Monitor Annibynnol a gyrhaeddodd ganlyniad Llys yn ystod y cyfnod adrodd hwn.

### Prydlondeb Trin Anghydfod Datgelu yr IM

Mae'r Canllaw Datgelu Statudol yn datgan y dylid gwneud penderfyniadau datgelu mewn ffordd amserol. Rwyf wedi parhau i gadw golwg fanwl ar brydlondeb datrys anghydfodau datgelu yr IM. Rhennir y cyfrifoldeb hwn ar wahanol gamau rhwng y DBS /ANI, yr heddlu a fy swyddfa fy hun.

Eleni gwelwyd gwelliant amlwg yn yr amser cyfartalog a gymerwyd gan yr heddlu yng Nghymru a Lloegr wrth ddelio â cham un anghydfod IM, h.y. pan fydd heddlu perthnasol yn adolygu eu penderfyniad datgelu, cyn i'r achos gael ei atgyfeirio at yr IM ar gyfer ystyriaeth annibynnol. Ym Medi 2022, gyda chymorth y DBS a'r heddlu, cyflwynais broses newydd a fydd yn galluogi proses fwy gwybodus ac amserol ar gyfer monitro'r gwaith o ddelio ag anghydfodau datgelu ar bob cam o'r broses. Er mai dim ond am dri mis yr oedd y system newydd ar waith yn ystod y flwyddyn adrodd, rwy'n credu bod y datblygiad hwn wedi cyfrannu'n uniongyrchol at brydlondeb gwell wrth ddelio ag anghydfodau datgelu.

Yn 2022, 43 diwrnod oedd y nifer y dyddiau gwaith a gymerwyd gan yr heddlu ar gyfartaledd i gwblhau cam gyntaf y broses hon. Mae hyn yn welliant mawr o gymharu â 2021, pan oedd yr heddlu'n treulio 67 diwrnod ar gyfartaledd ar y cam adolygu anghydfod. Fodd bynnag, mae'r ffigurau perfformiad cyfartalog hyn wedi'u gogwyddo gan nifer fach o achosion. Pe byddai 6 anghydfod eithriadol, a gymerodd fwy na 200 diwrnod yr un i'w datrys, eu heithrio o ystadegau 2022, 25.4 diwrnod gwaith fyddai'r nifer o ddyddiau a gymerwyd gan yr heddlu ar gyfartaledd ar y cam adolygu.

# Argymhellion o Adroddiadau Blynyddol Blaenorol yr IM

Mae'r tabl yn Atodiad B yn crynhoi holl argymhellion blaenorol yr IM. Cofnodir y cynnydd ar unrhyw argymhellion gweddilliol yma.

### Adroddiad Blynyddol 2014

Gwnaed argymhellion gan yr IM yn Adroddiad Blynyddol 2014: 'Cyflwyno amserlen ffurfiol (o dri mis) i ymgeisydd anghytuno â datgeliad gwybodaeth am Dystysgrif Cofnodion Troseddol Manylach.'

### Adroddiad cynnydd

Mae'r argymhelliad hwn yn parhau i gael ei gefnogi gan bob un o'r rhanddeiliaid. Fodd bynnag, fel yr adroddwyd yn flaenorol, er mwyn sicrhau newid ffurfiol i'r broses anghydfod fel hyn, byddai angen newid i ddeddfwriaeth sylfaenol. O ganlyniad, ni ellir symud yr argymhelliad hwn ymlaen nes y bydd cyfle addas yn codi i ddiwygio'r ddeddfwriaeth berthnasol drwy Ddeddf Seneddol.

Yn y cyfamser, fel yr adroddwyd mewn Adroddiadau Blynyddol blaenorol, cyflwynodd fy rhagflaenydd broses strwythuredig i ddelio â'r math hwn o achos. Dywedir bod y broses hon wedi lleihau'r galw ar unedau datgelu'r heddlu. Fodd bynnag, cydnabyddir o hyd y byddai datrysiad tymor hir, wedi'i ategu gan ddeddfwriaeth, yn fuddiol. Mae'r argymhelliad hwn yn parhau i fod yn gyfredol.

### Ymgysylltu

Drwy gydol 2022 rwyf wedi parhau i ymgysylltu ag ystod eang o randdeiliaid, trwy gyfarfodydd ar-lein ac wyneb yn wyneb. Rwy'n mynychu cyfarfodydd Datgelu Cenedlaethol a Rhanbarthol yr heddlu yn rheolaidd ac rwy'n aelod o Grŵp Portffolio Datgelu'r Heddlu. Rwy'n siarad yn rheolaidd gydag arweinwyr polisi a gweithredol o'r Swyddfa Gartref, DBS, ANI, NPCC ac unedau datgelu'r heddlu i nodi unrhyw faterion neu bryderon parhaus.

### Ysgrifenyddiaeth y Monitor Annibynnol

Mae Ysgrifenyddiaeth yr IM yn gweinyddu llwyth gwaith yr IM ac yn darparu cefnogaeth gyffredinol i swyddfa'r Monitor Annibynnol. Rwy'n werthfawrogol iawn o ymrwymiad, gwaith caled a hyblygrwydd parhaus Ysgrifenyddiaeth y Monitor Annibynnol eleni.

### Crynodeb a Chasgliad

Cafodd pob un o'm swyddogaethau statudol fel y Monitor Annibynnol eu cyflawni'n llwyddiannus ar hyd y flwyddyn.

Atgyfeiriwyd cyfanswm o 129 o achosion anghydfod datgelu at y Monitor Annibynnol i'w hadolygu yn 2022. Darperir dadansoddiad llawn o'r ffordd y cafodd yr achosion a atgyfeiriwyd at yr IM eu cwblhau isod.

Nid oes unrhyw argymhellion newydd yn yr Adroddiad Blynyddol hwn.

**Julia Wortley**
Monitor Annibynnol

# Y pwerau y mae'r Monitor Annibynnol yn gweithredu oddi tanynt

Penodir y Monitor Annibynnol gan yr Ysgrifennydd Gwladol o dan adran 119B o Ddeddf yr Heddlu 1997 ac mae ganddynt ddwy ddyletswydd statudol yn ymwneud â datgelu gwybodaeth am Dystysgrif Cofnodion Troseddol manylach unigolyn.

Yn unol ag adran 119B o Ddeddf yr Heddlu 1997, mae'n rhaid i'r Monitor Annibynnol adolygu sampl o achosion lle mae gwybodaeth yr heddlu nad yw'n ymwneud ag euogfarn yn cael ei chynnwys, neu heb gael ei chynnwys ar Dystysgrifau Cofnodion Troseddol Manylach o dan adran 113B (4) y Ddeddf. Diben yr adolygiadau hyn yw sicrhau ymlyniad wrth Ganllawiau Statudol y Swyddfa Gartref ar ddatgelu a chydymffurfio ag Erthygl 8 y Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol (ECHR). Yn dilyn yr adolygiadau 'samplo ar hap' hyn, mae'r Monitor Annibynnol yn darparu adborth i'r heddluoedd perthnasol.

O dan adran 117A o Ddeddf 1997, mae gan Fonitor Annibynnol rôl arall i ystyried yr achosion hynny y mae unigolyn yn credu bod yr wybodaeth a ddatgelwyd gan yr heddlu ynddynt o fewn Tystysgrif Cofnodion Troseddol Manylach naill ai ddim yn berthnasol i'r gweithlu y maent yn gwneud cais amdano, neu na ddylid ei datgelu

Pan wneir cais am Dystysgrif fanylach, mae manylion ymgeisydd yn cael eu hatgyfeirio at unrhyw heddlu a allai fod yn cadw gwybodaeth am yr ymgeisydd. Mae hyn yn galluogi'r heddlu i edrych ar eu cofnodion am unrhyw wybodaeth y credant yn rhesymol sy'n berthnasol i'r diben rhagnodedig y ceisir y Dystysgrif ar ei chyfer, ac ystyried a ddylid ei datgelu. Ar ôl i heddlu benderfynu datgelu gwybodaeth, os bydd ymgeisydd yn dymuno anghytuno â pherthnasedd a/neu gymesuredd y datgeliad, cynhelir cam cyntaf proses adolygu'r IM, ar gais yr IM, gan yr heddlu datgelu perthnasol. Os bydd yr ymgeisydd yn anfodlon ar ganlyniad adolygiad yr heddlu, yna bydd yr achos yn cael ei atgyfeirio at yr IM ar gyfer adolygiad annibynnol o'u hanghydfod datgelu.

## Proses Anghydfodau Datgelu'r IM ac Ysgrifenyddiaeth yr IM

**Cyflwynwyd cyfrifoldeb y Monitor Annibynnol i adolygu atgyfeiriadau lle mae ymgeiswyr yn dadlau ynghylch gwybodaeth a ddatgelir gan heddluoedd gan Ddeddf Diogelu Rhyddidau 2012 (PoFA). Sefydlwyd Ysgrifenyddiaeth fach i gefnogi'r Monitor Annibynnol i gyflawni'r swyddogaeth hon ym mis Hydref 2012 ac ar hyn o bryd mae ganddi sefydliad o ddau aelod o staff llawn amser.**

Cyn Hydref 2012 a'r newidiadau a gyflwynwyd yn PoFA, roedd unrhyw un a oedd yn anfodlon â chywirdeb y wybodaeth a ymddangosodd ar eu Tystysgrif fanylach ond yn gallu apelio i Brif Gwnstabl yr heddlu perthnasol. Pe byddai'r ymgeisydd yn anfodlon â chanlyniad hyn, neu eiriad y testun, yna'r unig ddewis a oedd ganddynt oedd gwneud cais am Adolygiad Barnwrol o'r penderfyniad datgelu. Byddai cam o'r fath yn gostus i'r ymgeisydd ac i'r DBS o ran amser ac adnoddau. Rôl y Monitor Annibynnol yn awr yw gweithredu fel haen adolygu ychwanegol cyn y gall unigolyn droi at Adolygiad Barnwrol.

Ers Medi 2012 hyd at ddiwedd Rhagfyr 2022, mae'r Monitor Annibynnol wedi derbyn cyfanswm o 2,174 o atgyfeiriadau achos.

Ar ôl derbyn cais, bydd Ysgrifenyddiaeth yr IM yn gofyn i'r heddlu am wybodaeth am yr achos ac i'r ymgeisydd am unrhyw sylwadau ychwanegol y maen nhw'n dymuno eu gwneud. Ar ôl derbyn unrhyw sylwadau pellach, cyflwynir yr achos i'r Monitor Annibynnol ei adolygu. Mae papurau achos yn cynnwys y Dystysgrif ddatgelu a ddarparwyd gan y DBS, yn ogystal ag unrhyw sylwadau ysgrifenedig a dogfennaeth ategol a gyflwynwyd gan yr ymgeisydd.

Wrth adolygu anghydfod, mae'r IM yn dilyn y Canllawiau Statudol ac yn ystyried:

1. P'un a yw'r wybodaeth a ddarparwyd yn gywir

2. P'un a yw'r wybodaeth a ddarparwyd yn berthnasol i'r diben rhagnodedig y darparwyd y dystysgrif ar ei chyfer (ers 2012 mae hyn yn gyffredinol ar gyfer gwaith o fewn y gweithluoedd 'plant' a/neu 'oedolion' yn hytrach nag ar gyfer rôl benodol);

3. P'un a ddylid datgeli'r wybodaeth, gan gynnwys:

a) Beth yw nod cyfreithlon y datgeliad?

b) P'un a yw'r datgeliad yn angenrheidiol er mwyn cyflawni'r nod cyfreithlon hwnnw;

c) P'un a yw'r datgeliad yn gymesur, gan daro cydbwysedd teg rhwng hawliau'r ymgeisydd a hawliau'r rhai y mae'r datgeliad yn ceisio eu gwarchod.

Ystyrir pob maen prawf yn gyfartal, ni cheir pwysoli. Ar ôl i'r IM wneud penderfyniad, bydd yr Ysgrifenyddiaeth yn ysgrifennu at yr ymgeisydd, y DBS a Phrif Swyddog yr heddlu perthnasol yn eu hysbysu o benderfyniad y Monitor Annibynnol.




## Eglurhad

Nid yw'r Monitor Annibynnol yn delio â chwynion cyffredinol gan gwsmeriaid am y DBS. Ymdrinnir â'r rhain drwy weithdrefn gwyno'r DBS. Rôl yr IM yw ystyried atgyfeiriadau gan ymgeiswyr sy'n dadlau ynghylch cynnwys 'gwybodaeth ychwanegol' yn eu Tystysgrifau datgelu manylach a gyhoeddwyd gan y DBS. Mae angen Tystysgrifau o'r fath ar gyfer y rhai sy'n dymuno gweithio gyda phlant ac oedolion bregus ac mewn rhai swyddi penodol eraill fel gyrru tacsis.


## Atgyfeiriadau Achosion i'r Monitor Annibynnol: 2022 Crynodeb

Mae Siart 1 yn dangos y nifer o atgyfeiriadau a dderbyniwyd gan y Monitor Annibynnol yn 2022 a sut y cawsant eu datrys wedi hynny. Dangosir y ffigurau hyn o'u cymharu â blynyddoedd blaenorol.

Mae 'cynnal' yn cyfeirio at achosion pan fydd datgeliad yr heddlu wedi'i gefnogi gan yr IM yn ei gyfanrwydd, a heb ei ddiwygio.



Mae Siart 2 yn dadansoddi'r categori 'canlyniad arall' (yn Siart 1 uchod), i ddangos yn fanylach sut y cwblhawyd achosion lle na chafodd y datgeliad ei 'gynnal'.




Bu cynnydd bychan yn y nifer o atgyfeiriadau a wnaed i'r IM eleni h.y., cynnydd o 12 achos. Fodd bynnag, mae'r ganran o anghydfodau datgelu sy'n cael eu hatgyfeirio at yr IM wedi gostwng ychydig. Yn 2021, roedd 2.71% o'r holl ddatgeliadau a wnaed ledled Cymru, Lloegr a Gogledd Iwerddon yn destun anghydfod a chawsant eu hatgyfeirio wedi hynny at yr IM ar gyfer adolygiad annibynnol. Fodd bynnag, yn 2022 gwelwyd gostyngiad yn y nifer o achosion i 2.54% o'r holl ddatgeliadau a wnaed.


Gyda rhai anghydfodau, gellid egluro'r wybodaeth a ddatgelwyd drwy ddiwygiad. Mewn achosion o'r fath, mae testun y datgeliad yn cael ei ddiwygio gan yr heddlu yn ystod proses yr anghydfod. Cofnodir yr achosion hyn yn Siart 2 fel achosion 'wedi'u diwygio gan yr heddlu' ac maent yn cynrychioli 45% o'r holl 'ganlyniadau eraill' yn 2022.

Cafwyd un achos eleni lle penderfynodd yr ymgeisydd eu bod yn fodlon â'r testun datgelu a ddiwygiwyd gan yr heddlu, ac fe wnaethant dynnu eu cais yn ôl am adolygiad annibynnol gan yr IM. Cofnodir yr achos hwn yn Siart fel 'tynnwyd yn ôl gan yr ymgeisydd'. Mewn tri achos arall, penderfynodd yr heddlu i ddileu testun yr anghydfod datgelu ar ôl eu hatgyfeirio at yr IM i'w hadolygu. Dangosir yr achosion hyn ar Siart 2 fel 'Tynnwyd yn ôl gan yr heddlu".

Mae polisi'r IM blaenorol yn parhau yn ei le sef peidio ag adolygu rhagor o achosion o'r fath lle codir yr anghydfod ar ôl amser sylweddol o hir ers i'r datgeliad gael ei wneud a phan nad yw'r diben rhagnodedig yn bodoli mwyach, neu mae'n rhesymol credu bod hyn yn wir. Cofnodir yr achosion hyn yn Siart fel "achosion wedi dyddio" ac maent yn cynrychioli 31% o'r holl "ganlyniadau eraill" yn 2022.

## Gweithluoedd

Mae Siart 3 (isod) yn darparu cymhariaeth o'r gweithluoedd perthnasol y mae ymgeiswyr wedi gwneud cais iddynt. Mae Siart 3 yn dangos bod y gyfran o achosion ym mhob Gweithlu yn parhau i fod yn gyson â'r blynyddoedd blaenorol ar y cyfan, ond mae gostyngiad yn y ganran o geisiadau 'Gweithlu Oedolion' a chynnydd cyferbyniol yn y 'Gweithlu Plant'. Cyflwynwyd y rhan fwyaf o anghydfodau (46% o'r achosion anghydfod a atgyfeiriwyd at yr IM) gan ymgeisydd sydd wedi gwneud cais ar gyfer y gweithlu(oedd) Plant ac Oedolion.




Sylwer: Ni chofnodwyd unrhyw anghydfod yn y categori 'Gweithlu arall' yn 2012 na 2013 wrth i Yrwyr Tacsis gael eu hystyried fel rhan o weithlu'r Plant yn ystod y blynyddoedd hynny.

## Atodiad A:

Home Office

**Sarah Dines AS**
**Gweinidog Diogelwch**

2 Marsham Street
London SW1P 4DF
**www.gov.uk/home-office**

Julia Wortley
Monitor Annibynnol ar gyfer y DBS

Drwy e-bost: julia.wortley@homeoffice.gov.uk

13 Gorffennaf 2023

Annwyl Julia,

Diolch i chi am eich Adroddiad Blynyddol 2022 a gyhoeddir yn fuan ar Gov.uk. Roedd eich adroddiad yn darparu trosolwg defnyddiol o′ch gwaith yn 2022 gyda rhanddeiliaid amrywiol, gan gynnwys unedau datgelu rhanbarthol, heddluoedd a′r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd.

Sylwaf nad ydych wedi gwneud unrhyw argymhellion newydd yn yr adroddiad hwn a′ch bod wedi rhoi′r wybodaeth ddiweddaraf am gynnydd ar argymhelliad sy′n weddill yr wyf wedi gwneud sylwadau arno isod.

Terfyn Amser ar gyfer Anghydfodau Datgelu

Fel y gwyddoch, bydd yr argymhelliad i gyflwyno terfyn amser ar gyfer anghydfod datgelu gwybodaeth ar Dystysgrif Cofnodion Troseddol Manylach yn gofyn am ddiwygio deddfwriaeth sylfaenol. Bydd yr argymhelliad yn cael ei ystyried os bydd cyfle addas yn codi i ddiwygio′r ddeddfwriaeth berthnasol. Yn y cyfamser, rwyf wedi nodi bod y datrysiad dros dro a gyflwynwyd gan eich rhagflaenydd yn parhau i fod yn effeithiol.

Hoffwn ddiolch i chi am eich gwaith parhaus ers ymgymryd â′r rôl.

Yr eiddoch yn gywir,

Sarah Dines

**Sarah Dines AS**
**Gweinidog Diogelwch**

## Atodiad B: Tabl o'r argymhellion blaenorol

| Argymhelliad | Blwyddyn Cyflwyno | Statws | Sefyllfa bresennol |
|---|---|---|---|
| Iechyd Meddwl | 2013 | Derbyniwyd | **Cyflawn** Cyhoeddwyd canllawiau Statudol Diwygiedig ar gyfer achosion iechyd meddwl ym mis Awst 2015. |
| Galwedigaethau yn y Cartref | 2013 | Derbyniwyd yn Rhannol | **Cyflawn** Diwygiodd y DBS y canllaw i ymgeiswyr a 'RB' yn 2015 a'u hyrwyddo yn Newyddion DBS. |
| Gweithlu'r Swydd y Gwnaed Cais Amdani | 2013 | Ni Dderbyniwyd | Codwyd y mater eto yn Adroddiad Blynyddol 2014 ac ailadroddwyd yr ymateb blaenorol. |
| Cyrff Cofrestredig | 2013 | Derbyniwyd | **Cyflawn** Gweithiodd y DBS gyda NACRO a CIPD i ddatblygu canllawiau i gyflogwyr ar sut i asesu a thrin gwybodaeth am dystysgrif ddatgelu. |
| Terfyn Amser Statudol ar gyfer anghydfodau | 2014 | Derbyniwyd ac yn aros am ddatblygu pellach | **Parhaus** Mae angen deddfwriaeth sylfaenol i fwrw ymlaen â hyn. |
| Proses ffurfiol i adolygu argymhellion | 2014 | Derbyniwyd | **Cyflawn** Strwythur cyfarfod yn ei le. |
| Unedau Datgelu'r Heddlu i gael mynediad at Drawsgrifiadau Llys | 2015 | Derbyniwyd | **Cyflawn** Polisi a chanllawiau wedi'u hail-gyhoeddi i ddarparwyr trawsgrifiadau llys. |

| | | | |
|---|---|---|---|
| Datblygu Canllawiau ar Ddatgeliadau Trydydd Parti | 2015 | Derbyniwyd ac yn aros am ddatblygu pellach | **Cyflawn** Mae'r NPCC a'r Swyddfa Gartref wedi datrys y materion allweddol. |
| Diwygio'r Canllawiau Datgelu Statudol | 2019 | Derbyniwyd | **Cyflawn** Cyhoeddwyd Canllawiau Datgelu Statudol Diwygiedig ym mis Tachwedd 2021 |